**Modelau goruchwylio ac enghraifft asesu:**
**Cyn geni ac ôl-enedigol**

## Lleoliad ymarfer: Claf mewnol cyn geni ac ôl-enedigol.

Senario:


Mae gofal cyn geni cleifion mewnol ac ôl-enedigol yn cael ei gynnig mewn Unedau Mamolaeth Cymru, ac mae'n cynnig profiad gwerthfawr ac amrywiol i Fydwragedd Cymru. Mae unedau brysbennu mamolaeth hefyd yn cynnig profi i fyfyrwyr yn y gwaith o asesu'n gyflym a brysbennu derbyniadau mewn argyfwng, cyflawni arsylwadau cychwynnol, a rhoi gofal parhaus i fenywod a phobl feichio o >/= 17/40. Mae'r drefn ofal yn dibynnu ar y byrddau iechyd unigol, mae'n bosib y bydd ardaloedd y cleifion mewnol cyn geni ar wahân i ardaloedd ôl-enedigol neu ysgogi, fodd bynnag, yn ystod profiad dysgu cyn geni / ôl-enedigol mae angen i fydwragedd dan hyfforddiant gael golwg ar bob maes er mwyn bodloni'r gofynion sgiliau a chymhwysedd.



Mae myfyrwyr yn y meysydd hyn yn cael profiad yn y tîm aml-ddisgyblaethol yn yr amgylchedd ysbyty a'r gymuned.

Model goruchwylio:

Mae sawl bydwraig dan hyfforddiant wedi cael eu dyrannu yn rhan o'r profiad dysgu Cyn Geni ac Ôl-enedigol ar gyfer lleoliad cyntaf y drydedd flwyddyn. Cytunwyd ar fodel goruchwylio ac asesu cylchdro er mwyn hwyluso pob profiad dysgu, gan fod y bydwragedd yn aros yn yr un maes a ddim yn symud rhwng cyn geni, ôl-enedigol a brysbennu. Er enghraifft, Megan yw enw'r myfyrwraig hon.




Mae Claire, Jane a Lucy yn Oruchwylwyr Ymarfer profiadol, ac wedi bod ar hyfforddiant ar Safonau newydd Goruchwylio ac Asesu Myfyrwyr (SSSA) (NMC 2018). Mae Ayan yn Asesydd Ymarfer sydd newydd gael hyfforddiant, ond mae'n teimlo'n hyderus am gyflawni rôl Asesydd Ymarfer oherwydd profiad y Goruchwylwyr Ymarfer a chymorth gan yr Hwylusydd Addysg Ymarfer Bydwreigiaeth (PEF). Bydd Megan yn symud drwy'r tri maes ymarfer cysylltiedig a chytunwyd mai Ayan fyddai'r Asesydd Ymarfer ar gyfer pob un gan ei bod hi'n gyfarwydd â phob maes, a chan fod y lleoliad yn un ffurfiannol.



Mae’r cylch yn dechrau gyda lleoliad tair wythnos ar y Ward Ysgogi Genedigaeth gyda Claire, dyma ble mae Ayan yn gweithio, ac yna tair wythnos ar ofal ôl-enedigol gyda Jane, wythnos yn brysbennu gyda Lucy ac wythnos arall gyda Claire neu Jane os oes unrhyw amcanion heb eu cyflawni. Gyda chymorth Claire ac Ayan, mae Megan yn cyflawni’r Contract Dysgu Ymarfer ar gyfer pob maes, gan nodi cyfleoedd i ennill sgiliau ar y log sgiliau yn yr MPAD.



Wrth i’r lleoliad fwrw ymlaen, mae Megan yn bennaf yn gweithio gyda’i goruchwylwyr ymarfer dynodedig. Mae hi wedi dangos gwybodaeth gyffredinol dda o ddulliau ysgogi genedigaeth a monitro unigolyn beichiog yn ystod y broses, mae’r archwiliadau’n gywir, ac mae wedi gallu dilyn taith gofal pobl yn hwyluso

| |
|---|
| genedigaethau ar y ward geni. Mae'n arddangos ymrwymiad i'w dysgu a gall gyflawni, dan oruchwyliaeth anuniongyrchol, rhai sgiliau a fyddai'n ddisgwyliedig gan fyfyriwr trydedd flwyddyn. Yn ystod y cylch ôl-enedigol, mae Megan yn gofalu am fabanod newydd-anedig a phobl sydd newydd roi genedigaeth dan oruchwyliaeth anuniongyrchol gan Jane. Mae hi'n gallu cynllunio gofal a rhyddhau o'r ysbyty gyda chymorth.<br>Tra'n gweithio gyda Lucy yn yr ardal brysbennu cyn geni, nodwyd bod Megan wedi'i chael hi'n anodd ymdopi â phrysurdeb ardal achosion brys. Yn dilyn arsylwadau rheolaidd o unigolyn beichiog a nodi ei chanfyddiadau ar siart MEOWS, pan ofynnodd Lucy wrth Megan i adrodd ei chanfyddiadau, daeth i'r amlwg nad o'n nhw o fewn terfynau arferol. Nid oedd Megan wedi uwchgyfeirio'r sefyllfa, na chydnabod ei bod yn argyfwng. Pan roedd Megan yn arsylwi, roedd Lucy wrthi'n cynnal trosglwyddiad brys i'r ward geni ac roedd y meddyg yn brysur yn cymryd nodiadau. Gan flaenoriaethu gofal yr unigolyn, gofynnodd Lucy wrth Megan ei dilyn hi, a byddai'n egluro beth roedd hi'n ei wneud a pham. Er hyn, roedd Megan yn rhwystredig ac yn teimlo ei bod wedi rhoi'r unigolyn mewn perygl. Yn breifat, trafododd Lucy a Megan yr achos, a nododd Megan nad oedd hi'n teimlo'n ddigon hyderus i siarad â'r meddyg ar ei phen ei hun. Rhoddodd Lucy wybod i Ayan am hyn fel Asesydd Ymarfer Megan, a wnaeth ymuno â'r ddwy am sgwrs. Roedd Megan yn ymwybodol bod cyfathrebu da yn yr MDT yn hanfodol i ofal diogel, gan gydnabod y gall fod yn frawychus mynd at aelod o staff anghyfarwydd. Awgrymodd Ayan a Lucy ffyrdd o fagu hyder, a rhoi cyngor i Megan aros yn yr ardal frysbennu am wythnos olaf ei lleoliad i weithio ar y sgil hon. Roedd Megan yn dal yn teimlo'n isel am r holl beth, a chafodd ei hannog i geisio cymorth gan staff y brifysgol. Rhoddwyd sicrwydd iddi bod ei Goruchwylwyr Ymarfer wedi ymrwymo i'w chefnogi i wella ei hyder. |
| Cyfleoedd dysgu ychwanegol: |
| - Brysbennu dros y ffôn dan oruchwyliaeth uniongyrchol, gan nodi gwybodaeth sylfaenol.<br>- Defnyddio systemau Brysbennu Mamolaeth megis BSOTS (System Brysbennu Obstetreg Penodol i Symptomau Birmingham).<br>- Defnyddio siartiau MEWOS ac uwchgyfeirio gofal.<br>- Cyflawni asesiadau cychwynnol pobl feichiog sy'n cyflwyno fel bod angen gofal brys.<br>- Rheoli cyflyrau Obstetreg sydd angen gofal fel claf mewnol, er mwyn arsylwi a thrin.<br>- Cysgodi mewn achos o roi diagnosis marwolaeth yn y groth. |

- Cysgodi a gallu dangos bod llwybrau gofal yn cael eu dilyn yn ystod arhosiad yn yr ysbyty neu achos gofal brys.
- Dilyn achos unigolyn os oes angen rhoi genedigaeth ar frys.
- Derbyn pobl ôl-enedigol gyda phroblemau megis pwysedd gwael uchel a heintiau.
- Profiad o dderbyn er mwyn ysgogi geni, a dulliau ysgogi geni, yn ôl canllawiau lleol a chenedlaethol.
- Sefydlu lles y ffetws.
- Cyfle i gynnal asesiad cynnydd genedigaeth gyda chydsyniad.
- Cael profiad ym mhob agwedd ar ofal ôl-enedigol gan gynnwys babanod newydd-anedig sydd angen gofal pontio**.**
- Profiad o drosglwyddo gofal yn ddiogel rhwng ardaloedd a'r cartref.